OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2880 (Cy.238)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafswm tâl mae'n rhaid i werthwyr nwyddau ei godi am fagiau siopa untro. Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan adrannau 77 a 90 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ac Atodlen 6 iddi.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn ymdrin â diffiniadau a gweinyddwyr. Mae'n cynnwys diffiniad o "bag siopa untro" a diffiniad o "gwerthwr"; ac mae'n penodi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn weinyddwyr o dan y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau'n ymdrin â'r isafswm tâl y mae'n rhaid i werthwr ei godi am fag siopa untro a'r mathau o fagiau siopa untro nad yw'r gofyniad i godi tâl yn gymwys ar eu cyfer (nodir y bagiau o dan sylw yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau'n ymdrin â chadw, cyflenwi a chyhoeddi cofnodion gan werthwyr.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau'n pennu'r amgylchiadau pan fo gwerthwr yn torri'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n ymwneud â sancsiynau sifil. Mae'n cyflwyno Atodlenni 2 a 3 ac yn ymdrin ag amgylchiadau pan na ellir gwneud cynnig ffurfiol i osod cosb benodedig neu wneud gofyniad yn ôl disgresiwn.

Mae Atodlen 2 yn rhoi pŵer i weinyddwyr i osod cosbau ariannol penodedig ac mae'n cynnwys hawliau a rhwymedigaethau gweithdrefnol cysylltiedig. Mae Atodlen 3 yn rhoi pŵer i weinyddwyr osod gofynion yn ôl disgresiwn ac mae'n cynnwys hawliau a rhwymedigaethau gweithdrefnol cysylltiedig.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2880 (W.238)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision about a minimum amount which sellers of goods must charge for single use carrier bags. The Regulations are made under sections 77 and 90 of, and Schedule 6 to, the Climate Change Act 2008.

Part 1 of the Regulations deals with definitions and administrators. It includes a definition of "single use carrier bag" and a definition of "seller"; and appoints county councils and county borough councils as administrators under the Regulations.

Part 2 of the Regulations deals with the minimum amount which a seller must charge for a single use carrier bag and the types of single use carrier bags to which the requirement to charge does not apply (the bags in question are set out in Schedule 1 to the Regulations).

Part 3 of the Regulations deals with the keeping, supply and publication of records by sellers.

Part 4 of the Regulations specifies the circumstances in which a seller breaches these Regulations.

Part 5 of the Regulations concerns civil sanctions. It introduces Schedules 2 and 3 and deals with the circumstances in which a formal proposal to impose a fixed penalty or discretionary requirement cannot be made.

Schedule 2 confers power on administrators to impose fixed monetary penalties and contains associated procedural rights and obligations. Schedule 3 confers power on administrators to impose discretionary requirements and contains associated procedural rights and obligations.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau'n ymdrin â gorfodaeth a pheidio â chydymffurfio. Mae'n rhoi pwerau gorfodi i weinyddwyr; yn caniatáu i weinyddwyr adennill costau gorfodi penodol y maent yn rhesymol wedi mynd iddynt; ac yn caniatáu i weinyddwyr adennill arian am gosbau a chostau gorfodi drwy'r llysoedd sifil neu, os yw'r llys yn gorchymyn hynny, fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn llys. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n caniatáu i weinyddwyr osod cosbau ar werthwyr sy'n methu â chydymffurfio â gofynion penodol a osodwyd arnynt cyn hynny. Mae'r Rhan hon hefyd yn caniatáu i weinyddwyr ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gyhoeddi manylion unrhyw sancsiynau sifil y maent wedi mynd iddynt.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau'n ymdrin â materion gweinyddol megis cwmpas pwerau gweinyddwyr o dan y Rheoliadau, darpariaeth gyffredinol mewn perthynas ag apelau a dyletswyddau gweinyddwyr i gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y byddant yn arfer y pwerau sancsiynu sifil a gorfodi sydd ganddynt o dan y Rheoliadau.

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol ("SGRhLl") i gynnal arolwg o'r cynnydd a wnaed gan bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru o ran gweithio yn ôl egwyddorion rheoleiddio da, fel a nodir ym mharagraff 23 o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Gellir cael copi o adroddiad SGRhLl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Mae asesiad effaith wedi cael ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am ddrafft o'r Rheoliadau yn unol â'r canlynol:

(i) Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 98/34/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol (OJ Rhif L204, 21.7.1998, t.37) a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/96/EC (OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.81); a

(ii) Erthygl 16 o Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 94/62/EC dyddiedig 20 Rhagfyr 1994 ar becynnu a gwastraff pecynnu (OJ Rhif L365, 31.12.1994, t.10) a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 219/2009 (OJ Rhif L87, 31.3.2009, t.109).

Part 6 of the Regulations deals with enforcement and non-compliance. It confers enforcement powers on administrators; allows administrators to recover certain enforcement costs which they have reasonably incurred; and allows administrators to recover penalties and enforcement costs through the civil courts or, if a court so orders, as if payable under a court order. This Part introduces Schedule 4 which allows administrators to impose penalties on sellers who fail to comply with certain requirements previously imposed on them. This Part also allows administrators to require sellers to publish details of any civil sanctions which they have incurred.

Part 7 of the Regulations deals with administrative matters such as the scope of administrators' powers under the Regulations, general provision in relation to appeals and duties on administrators to publish guidance about how they will exercise their civil sanctioning and enforcement powers under the Regulations.

The Welsh Assembly Government commissioned the Local Better Regulation Office ("LBRO") to carry out a review of the progress of all county and county borough councils in Wales in working to the principles of good regulation, as set out in paragraph 23 of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008. A copy of the LBRO's report can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

An impact assessment has been prepared for these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

A draft of the Regulations was notified to the European Commission in accordance with:

(i) Article 8 of Directive 98/34/EC of the European Parliament and of the Council laying down a procedure for the provision of information in the field of technical standards and regulations (OJ No. L204, 21.7.1998, p.37) last amended by Council Directive 2006/96/EC (OJ No. L363, 20.12.2006, p. 81); and

(ii) Article 16 of European Parliament and Council Directive 94/62/EC of 20 December 1994 on packaging and packaging waste (OJ No. L365, 31.12.1994, p.10) last amended by Regulation (EC) No. 219/2009 (OJ No. L87, 31.3.2009, p.109).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2880 (Cy.238)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Tachwedd 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77(2) a 90(3)(a) a (b) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 a pharagraffau 1, 2, 3(1)(a) a (2)(a), 4 i 8, 9(1) a (2), 10, 12, 16 i 19 a 21 o Atodlen 6 iddi(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol â pharagraff 23 o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno y bydd pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw pan fyddant yn arfer pŵer a roddir gan y Rheoliadau hyn wrth osod sancsiwn sifil.

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adran 77(4)(a) a (b) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 a pharagraff 27(3)(**2**) o Atodlen 6 iddi.

(**1**) 2008 p.27; *gweler* adran 77(3) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 i gael y diffiniad o "*the relevant national authority*"; a pharagraff 3(4) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno i gael y diffiniad o "*specified*".

(**2**) *Gweler* adran 97 o'r Ddeddf honno i gael y diffiniad o "*devolved legislature*".

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2880 (W.238)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *30 November 2010* |
| *Coming into force* | *1 October 2011* |

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 77(2) and 90(3)(a) and (b) of, and paragraphs 1, 2, 3(1)(a) and (2)(a), 4 to 8, 9(1) and (2), 10, 12, 16 to 19 and 21 of Schedule 6 to, the Climate Change Act 2008(**1**).

The Welsh Ministers are satisfied in accordance with paragraph 23 of Schedule 6 to that Act that every county council and county borough council in Wales will act in accordance with the principles referred to in that paragraph when exercising a power conferred by these Regulations to impose a civil sanction.

A draft of these Regulations has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales pursuant to section 77(4)(a) and (b) of, and paragraph 27(3)(**2**) of Schedule 6 to, the Climate Change Act 2008.

(**1**) 2008 c.27; *see* section 77(3) of the Climate Change Act 2008 for the definition of "the relevant national authority"; and paragraph 3(4) of Schedule 6 to that Act for the definition of "specified".

(**2**) *See* section 97 of that Act for the definition of "devolved legislature".

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac maent yn dod i rym ar 1 Hydref 2011.

**Dehongli**

**2**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn adrodd" ("*reporting year*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar 6 Ebrill 2012;

(b) ar ôl hynny, y cyfnod sy'n cychwyn ar 7 Ebrill mewn un flwyddyn ac sy'n dod i ben ar 6 Ebrill y flwyddyn ganlynol; ac mae'r cyfnod hwnnw am y tro cyntaf i gychwyn ar 7 Ebrill 2012;

ystyr "cofnod" ("*record*") yw'r wybodaeth a bennir yn rheoliad 8(3);

ystyr "cosb am dalu'n hwyr" ("*late payment penalty*") yw unrhyw gynnydd mewn swm sy'n daladwy—

(a) fel cosb ariannol benodedig, yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 2;

(b) fel cosb ariannol amrywiadwy, yn rhinwedd paragraff 9 o Atodlen 3;

(c) fel cosb am beidio â chydymffurfio, yn rhinwedd paragraff 8 o Atodlen 4;

mae i "hysbysiad adennill costau gorfodi" ("*enforcement costs recovery notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 16(1);

mae i "hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio" ("*non-compliance penalty notice*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 5(4) o Atodlen 4;

mae i "swm penodedig" ("*specified sum*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 4(2) o Atodlen 2;

mae "swyddogaethau" ("*functions*") yn cynnwys pwerau a dyletswyddau; ac

ystyr "y tâl" ("*the charge*") yw'r isafswm tâl a bennir yn rheoliad 6.

(2) Mae cyfeiriadau at—

(a) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 2;

(b) hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yn gyfeiriadau at hysbysiad

## PART 1

### Introduction

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 1 October 2011.

**Interpretation**

**2**.—(1) In these Regulations—

"the charge" ("*y tâl*") means the minimum charge specified in regulation 6;

"enforcement costs recovery notice" ("*hysbysiad adennill costau gorfodi*") has the meaning given in regulation 16(1);

"functions" ("*swyddogaethau*") includes powers and duties;

"late payment penalty" ("*cosb am dalu'n hwyr*") means any increase in an amount payable—

(a) as a fixed monetary penalty, by virtue of paragraph 10 of Schedule 2;

(b) as a variable monetary penalty, by virtue of paragraph 9 of Schedule 3;

(c) as a non-compliance penalty, by virtue of paragraph 8 of Schedule 4;

"non-compliance penalty notice" ("*hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio*") has the meaning given in paragraph 5(4) of Schedule 4;

"record" ("*cofnod*") means the information specified in regulation 8(3);

"reporting year" ("*blwyddyn adrodd*") means—

(a) the period starting on the date on which these Regulations come into force and ending on 6 April 2012;

(b) thereafter, the period commencing 7 April in one year and ending on 6 April the following year; the first such period to commence 7 April 2012;

"specified sum" ("*swm penodedig*") has the meaning given in paragraph 4(2) of Schedule 2.

(2) References to—

(a) a notice of intent in relation to a fixed monetary penalty, are references to a notice of intent served under paragraph 3(1) of Schedule 2;

(b) a final notice in relation to a fixed monetary penalty, are references to a final notice served

terfynol a gyflwynir o dan baragraff 6(5) o Atodlen 2;

(c) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 3;

(ch) hysbysiad terfynol mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn, yn gyfeiriadau at hysbysiad terfynol a gyflwynir o dan baragraff 5(6) o Atodlen 3;

(d) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb am beidio â chydymffurfio, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 4.

(3) Mae cyfeiriadau at fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl yn gyfeiriadau at y bagiau siopa untro hynny y mae rheoliad 6 yn gymwys iddynt.

**Ystyr "bag siopa untro"**

**3**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "bag siopa untro" ("*single use carrier bag*") yw bag sy'n cyfateb i'r disgrifiad ym mharagraff (2) neu (3)—

(2) Mae bag yn cyfateb i'r disgrifiad yn y paragraff hwn—

(a) os yw wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o bapur, deunydd sy'n seiliedig ar blanhigion neu startsh naturiol; a

(b) os nad yw wedi ei weithgynhyrchu'n benodol i'w ailddefnyddio'n aml.

(3) Mae bag yn cyfateb i'r disgrifiad yn y paragraff hwn os yw'n fag plastig—

(a) nad yw'n bodloni pob un o'r gofynion ym mharagraff (4); neu

(b) sy'n bodloni pob un o'r gofynion ym mharagraff (4) ond nad yw wedi ei fwriadu i'w ailddefnyddio'n aml (*gweler* paragraff (5)).

(4) Y gofynion yw—

(a) bod y naill a'r llall o ddimensiynau'r bag yn fwy na 404 o filimetrau ("mm");

(b) bod o leiaf un o ddimensiynau'r bag yn fwy na 439 mm;

(c) bod y bag wedi ei weithgynhyrchu o ddeunydd sy'n fwy na 49 o ficronau yn ei drwch.

(5) Mae bag plastig wedi ei fwriadu i'w ailddefnyddio'n aml—

(a) os yw wedi ei brynu gan y cwsmer; a

(b) pan fydd wedi ei dreulio'n llwyr, os gellir ei ddychwelyd i'r gwerthwr y prynwyd ef ohono a chael un newydd yn ei le yn ddi-dâl.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "bag plastig" ("*plastic bag*") yw bag sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig;

under paragraph 6(5) of Schedule 2;

(c) to a notice of intent in relation to a discretionary requirement, are references to a notice of intent served under paragraph 3(1) of Schedule 3;

(d) to a final notice in relation to a discretionary requirement, are references to a final notice served under paragraph 5(6) of Schedule 3;

(e) to a notice of intent in relation to a non-compliance penalty, are references to a notice of intent served under paragraph 3(1) of Schedule 4.

(3) References to single use carrier bags attracting the charge are references to those single use carrier bags to which regulation 6 applies.

**Meaning of "single use carrier bag"**

**3**.—(1) In these Regulations "single use carrier bag" ("*bag siopa untro*") means a bag fitting the description in paragraph (2) or (3)—

(2) A bag fits the description in this paragraph if—

(a) it is made wholly or mainly of paper, plant-based material or natural starch; and

(b) it is not specifically manufactured for multiple reuse.

(3) A bag fits the description in this paragraph if it is a plastic bag—

(a) which does not meet all of the specifications in paragraph (4); or

(b) which meets all of the specifications in paragraph (4) but is not intended for multiple reuse (*see* paragraph (5)).

(4) The specifications are—

(a) both of the bag's dimensions are greater than 404 millimetres ("mm");

(b) at least one of the bag's dimensions is greater than 439 mm;

(c) the bag is manufactured from material which is greater than 49 microns in thickness.

(5) A plastic bag is intended for multiple reuse if—

(a) it is purchased by the customer; and

(b) when worn out, it is returnable to the seller from whom it was purchased to be replaced free of charge.

(6) In this regulation—

"dimensions" ("*dimensiynau*") means width or height;

ystyr "dimensiynau" ("*dimensions*") yw lled neu uchder.

**Ystyr "gwerthwr"**

**4**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "gwerthwr" ("*seller*") yw person sydd wrth fasnachu neu redeg busnes—

(a) yn gwerthu nwyddau o le yng Nghymru;

(b) yn gwerthu nwyddau a gyflenwir i bersonau yng Nghymru.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Pan fo person (A) yn gwerthu nwyddau yn swyddogaeth A fel swyddog neu gyflogai i berson arall (B), yna at ddibenion y Rheoliadau hyn B yw'r gwerthwr o dan yr amgylchiadau hynny, ac nid A.

**Gweinyddwr**

**5**.—(1) Awdurdod lleol sydd i weinyddu'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn, ac yn unol â hynny, ef yw'r gweinyddwr ar gyfer ei ardal(**1**).

(2) Ym mharagraff (1) mae'r cyfeiriad at awdurdod lleol yn gyfeiriad at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

**RHAN 2**

## Y Tâl a Godir

**Gofyniad i godi tâl**

**6**. Rhaid i werthwr godi isafswm o 5 ceiniog am bob bag siopa untro newydd a gyflenwir—

(a) yn y lle yng Nghymru lle y gwerthir y nwyddau, at ddibenion galluogi'r nwyddau i gael eu cymryd oddi yno;

(b) at ddibenion galluogi'r nwyddau i gael eu cyflenwi i bersonau yng Nghymru.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i reoliad 7.

**Esemptiad i'r gofyniad i godi tâl**

**7**. Nid yw rheoliad 6 yn gymwys mewn perthynas â chyflenwi bagiau siopa untro o'r mathau a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac mae'r Atodlen honno yn cael effaith yn unol â hynny.

(**1**) I gael diffiniad o "*administrator*", *gweler* paragraff 6(1) a (4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008; ac ar gyfer cwmpas pwerau gweinyddwyr o dan y Rheoliadau hyn, *gweler* rheoliad 19.

"plastic bag" ("*bag plastig*") means a bag which is made wholly or mainly of plastic.

**Meaning of "seller"**

**4**.—(1) In these Regulations "seller" ("*gwerthwr*") means a person who in the course of trade or business—

(a) sells goods from a place in Wales;

(b) sells goods which are delivered to persons in Wales.

But this is subject to paragraph (2).

(2) Where a person (A) sells goods in A's capacity as an officer or employee of another person (B), then for the purposes of these Regulations B is the seller in those circumstances, and not A.

**Administrator**

**5**.—(1) A local authority is to administer the provision made by these Regulations and accordingly, is the administrator for its area(**1**).

(2) In paragraph (1) the reference to a local authority is a reference to a county or county borough council.

**PART 2**

## The Charge

**Requirement to charge**

**6**. A seller must charge a minimum of 5 pence for every single use carrier bag supplied new—

(a) at the place in Wales where the goods are sold, for the purpose of enabling the goods to be taken away;

(b) for the purpose of enabling the goods to be delivered to persons in Wales.

But this is subject to regulation 7.

**Exemption from the requirement to charge**

**7**. Regulation 6 does not apply in relation to the supply of single use carrier bags of the kinds described in Schedule 1 and that Schedule has effect accordingly.

(**1**) For the definition of "administrator", *see* paragraph 6(1) and (4) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008; and for the scope of administrators' powers under these Regulations, *see* regulation 19.

## RHAN 3

### Cofnodion a Chyhoeddi

**Cadw cofnodion**

**8**.—(1) Rhaid i werthwr gadw cofnod cywir o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer pob blwyddyn adrodd.

(2) Rhaid i werthwr ddal gafael ar gofnodion am gyfnod o dair blynedd gan gychwyn ar 31 Mai yn y flwyddyn adrodd yn dilyn honno y mae cofnod yn berthnasol iddi.

(3) Yr wybodaeth yw—

(a) nifer y bagiau siopa untro a gyflenwir gan y gwerthwr sy'n denu'r tâl;

(b) y swm gros a gafwyd gan y gwerthwr drwy godi taliadau am fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl;

(c) enillion gros y tâl(**1**);

(ch) enillion net y tâl(**2**);

(d) dadansoddiad o sut y daethpwyd at y swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng enillion gros ac enillion net y tâl, gan gynnwys (yn benodol)—

(i) y dosraniad rhwng unrhyw TAW briodoladwy a chostau rhesymol;

(ii) y dosraniad rhwng pennau gwahanol o gostau rhesymol;

(dd) at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net a gafwyd o'r tâl.

(4) Y canlynol yw'r symiau penodedig at ddibenion y diffiniad o "*net proceeds of the charge*" ym mharagraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008(**3**)—

(a) swm unrhyw TAW briodoladwy;

(b) swm unrhyw gostau rhesymol.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "costau rhesymol" ("*reasonable costs*") yw—

(a) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;

(b) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gyfathrebu gwybodaeth am y tâl i gwsmeriaid;

(**1**) I gael ystyr "*gross proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(**2**) I gael ystyr "*net proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(**3**) 2008 p.27.

## PART 3

### Records and Publication

**Record-keeping**

**8**.—(1) A seller must keep an accurate record of the information specified in paragraph (3) for every reporting year.

(2) Records must be retained by a seller for a period of three years beginning on 31 May in the reporting year following that to which a record relates.

(3) The information is—

(a) the number of single use carrier bags supplied by the seller which attract the charge;

(b) the gross amount received by the seller by way of charges for single use carrier bags which attract the charge;

(c) the gross proceeds of the charge(**1**);

(d) the net proceeds of the charge(**2**);

(e) a breakdown of how the amount which represents the difference between the gross and net proceeds of the charge has been arrived at, including (in particular)—

(i) the apportionment between any attributable VAT and reasonable costs;

(ii) the apportionment between different heads of reasonable costs;

(f) the uses to which the net proceeds of the charge have been put.

(4) The following are the amounts specified for the purposes of the definition of "net proceeds of the charge" in paragraph 7(4) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008(**3**)—

(a) the amount of any attributable VAT;

(b) the amount of any reasonable costs.

(5) In this regulation—

"attributable VAT" ("*TAW briodoladwy*") means VAT on the supply by the seller of single use carrier bags which attract the charge;

"reasonable costs" ("*costau rhesymol*") means—

(a) costs reasonably incurred by a seller to enable the seller to comply with these Regulations;

(b) costs reasonably incurred by a seller to enable the seller to communicate information about the charge to customers;

(**1**) For the meaning of "gross proceeds of the charge" *see* paragraph 7(4) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(**2**) For the meaning of "net proceeds of the charge" *see* paragraph 7(4) of Schedule 6 to that Act.

(**3**) 2008 c.27.

mae i "TAW" yr ystyr a roddir i "*VAT*" yn adran 96 o Ddeddf Treth ar Werth 1994(**1**);

ystyr "TAW briodoladwy" ("*attributable VAT*") yw'r TAW ar gyflenwad gan y gwerthwr o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

"VAT" ("*TAW*") has the meaning given in section 96 of the Value Added Tax Act 1994(**1**).

**Argaeledd cofnodion**

**9**.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person a grybwyllir ym mharagraff (4) yn gwneud cais i werthwr yn ysgrifenedig i gyflenwi cofnod am flwyddyn adrodd.

(2) Os daw cais i law yn ystod y cyfnod y delir gafael ar y cofnod sydd o dan sylw, rhaid i'r gwerthwr ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r person a wnaeth gais amdano o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael y cais ysgrifenedig.

(3) Y cyfnod dal gafael yw'r cyfnod o dair blynedd y mae'n rhaid dal gafael ar unrhyw gofnod penodol o dan reoliad 8(2).

(4) Y personau yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) aelod o'r cyhoedd.

**Availability of records**

**9**.—(1) This regulation applies where a person mentioned in paragraph (4) requests a seller in writing to supply a record for a reporting year.

(2) If the request is received during the retention period for the record in question, the seller must provide a copy of that record to the person who requested it within 28 days of receiving the written request.

(3) The retention period is the three year period for which any particular record must be retained under regulation 8(2).

(4) The persons are—

(a) the Welsh Ministers;

(b) a member of the public.

**Cyhoeddi cofnodion**

**10**.—(1) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar gyfer blwyddyn adrodd os bodlonir yr amodau ym mharagraff (2) gan y gwerthwr mewn perthynas â'r flwyddyn adrodd o dan sylw.

(2)Yr amodau yw—

(a) bod y gwerthwr yn berson trethadwy at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994;

(b) bod y gwerthwr yn cyflenwi 1000 neu fwy o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

(3) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar neu cyn 31 Mai yn y flwyddyn adrodd sy'n dilyn honno y mae'r cofnod yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i'r cofnod barhau i fod wedi ei gyhoeddi hyd at 31 Mai yn y flwyddyn adrodd ddilynol.

(5) Rhaid i'r cyhoeddi fod yn y dull a ganlyn—

(a) ar wefan y gwerthwr; neu

(b) drwy arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y cofnod yn holl fangreoedd y gwerthwr yng Nghymru y mae gan gwsmeriaid fynediad iddynt.

(6) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod ar ei wefan—

(a) rhaid i'r cofnod gael ei arddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr; neu

**Publication of records**

**10**.—(1) A seller must publish the record for a reporting year if the conditions in paragraph (2) are met by the seller in relation to the reporting year in question.

(2) The conditions are—

(a) that the seller is a taxable person for the purposes of the Value Added Tax Act 1994;

(b) that the seller supplies 1000 or more single use carrier bags which attract the charge.

(3) A seller must publish the record on or before 31 May in the reporting year following that to which the record relates.

(4) The record must remain published until 31 May in the following reporting year.

(5) Publication must be by way of—

(a) the seller's internet site; or

(b) the display of a notice containing the record in all of the seller's premises in Wales to which customers have access.

(6) If a seller publishes the record by way of its internet site—

(a) the record must be displayed prominently on the seller's home page; or

(**1**) 1994 p.23; mae diwygiadau i adran 96 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1994 c.23; there are amendments to section 96 which are not relevant to these Regulations.

(b) os yw'r cofnod i gael ei arddangos yn rhywle arall ar wefan y gwerthwr, rhaid i ddolen i'r cofnod gael ei harddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr.

(7) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod yn y dull a ddisgrifir ym mharagraff (5)(b), rhaid i'r hysbysiad gael ei arddangos mewn lle amlwg, fel bod cwsmeriaid yn gallu ei weld yn eglur ac yn gallu ei ddarllen.

## RHAN 4

## Torri'r Rheoliadau

### Torri'r Rheoliadau

**11**.—(1) Mae gwerthwr yn torri'r Rheoliadau hyn os yw, oherwydd methiant i gymryd pob cam rhesymol sy'n angenrheidiol i'w alluogi i wneud hynny, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Y gofynion yw—

(a) y gofyniad i godi tâl yn unol â rheoliad 6;

(b) y gofyniad i gadw cofnodion yn unol â rheoliad 8;

(c) y gofyniad i ddal gafael ar gofnodion yn unol â rheoliad 8;

(ch) y gofyniad i gyflenwi cofnodion yn unol â rheoliad 9;

(d) y gofyniad i gyhoeddi cofnodion yn unol â rheoliad 10.

(3) Mae gwerthwr yn torri'r Rheoliadau hyn os yw, heb achos rhesymol—

(a) yn rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i weinyddwr;

(b) yn rhwystro gweinyddwr neu'n methu â rhoi cymorth iddo fel arall wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

## RHAN 5

## Sancsiynau sifil

### Sancsiynau sifil

**12**. Mae'r Atodlenni canlynol yn cael effaith—

(a) Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol penodedig(**1**);

(**1**) I gael ystyr "*fixed monetary penalty*" *gweler* paragraff 10(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(b) if the record is to be displayed elsewhere on the seller's internet site, a link to the record must be displayed prominently on the seller's home page.

(7) If a seller publishes the record in the way described in paragraph (5)(b), the notice must be displayed in a prominent position so that it is clearly visible to, and readable by, customers.

## PART 4

## Breaches

### Breaches

**11**.—(1) A seller breaches these Regulations if, as a result of having failed to take all reasonable steps necessary to enable it to do so, a seller fails to comply with a requirement mentioned in paragraph (2).

(2) The requirements are—

(a) the requirement to charge in accordance with regulation 6;

(b) the requirement to keep records in accordance with regulation 8;

(c) the requirement to retain records in accordance with regulation 8;

(d) the requirement to supply records in accordance with regulation 9;

(e) the requirement to publish records in accordance with regulation 10.

(3) A seller breaches these Regulations if, without reasonable cause, a seller—

(a) gives false or misleading information to an administrator;

(b) otherwise obstructs or fails to assist an administrator in the conduct of its functions under these Regulations.

## PART 5

## Civil sanctions

### Civil sanctions

**12**. The following Schedules have effect—

(a) Schedule 2, which makes provision for fixed monetary penalties(**1**);

(**1**) For the meaning of "fixed monetary penalty" *see* paragraph 10(3) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(b) Atodlen 3, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gofynion yn ôl disgresiwn(**1**).

**Cyfuniad o gosbau**

**13**.—(1) Ni chaiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb ariannol benodedig i werthwr os gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn ar y gwerthwr hwnnw mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau.

(2) Ni chaiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn i werthwr yn unrhyw o'r amgylchiadau canlynol—

(a) pan fo cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y gwerthwr hwnnw mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau;

(b) pan fo'r gwerthwr wedi rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu swm penodedig;

(c) pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn eisoes wedi ei osod mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

**RHAN 6**

## Gorfodi a Pheidio â chydymffurfio

**Pwerau gorfodi**

**14**.—(1) Mae gan weinyddwr y pwerau gorfodi sydd yn y rheoliad hwn.

(2) Y pwerau yw—

(a) prynu nwyddau prawf er mwyn canfod a gydymffurfir â'r Rheoliadau hyn;

(b) arolygu unrhyw nwyddau a mynd i mewn i unrhyw fangre ar unrhyw adeg resymol (heblaw mangre ddomestig) er mwyn canfod a gydymffurfir â'r Rheoliadau hyn;

(c) os yw gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn—

(i) cwestiynu gwerthwr neu swyddogion neu gyflogeion gwerthwr;

(ii) ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau'n cael eu dangos neu fod gwybodaeth yn cael ei darparu.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "mangre ddomestig" ("*domestic premises*") yw mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn annedd breifat.

(**1**) I gael ystyr "*discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(b) Schedule 3, which makes provision for discretionary requirements(**1**).

**Combination of penalties**

**13**.—(1) An administrator may not serve a notice of intent in relation to a fixed monetary penalty on a seller if a discretionary requirement has been imposed on that seller in relation to the same breach.

(2) An administrator may not serve a notice of intent in relation to a discretionary requirement on a seller in any of the following circumstances—

(a) where a fixed monetary penalty has been imposed on that seller in relation to the same breach;

(b) where the seller has discharged liability to a fixed monetary penalty in respect of the same breach by payment of a specified sum;

(c) where a discretionary requirement has previously been imposed in respect of the same act or omission.

**PART 6**

## Enforcement and Non-compliance

**Enforcement powers**

**14**.—(1) An administrator has the powers of enforcement in this regulation.

(2) The powers are—

(a) to make test purchases of goods for the purposes of ascertaining whether these Regulations are being complied with;

(b) to inspect any goods and to enter any premises at any reasonable time (other than domestic premises) for the purposes of ascertaining whether these Regulations are being complied with;

(c) if an administrator reasonably believes that there has been a failure to comply with a requirement of these Regulations—

(i) to question a seller or officers or employees of a seller;

(ii) to require the production of documents or the provision of information.

(3) In this regulation "domestic premises" ("*mangre ddomestig*") means premises used wholly or mainly as a private dwelling.

(**1**) For the meaning of "discretionary requirement" *see* paragraph 12(3) of Schedule 6 to that Act.

(4) Rhaid i weinyddwr sy'n ceisio arfer pŵer o dan baragraff (2)(b) neu (c) ddangos tystiolaeth o bwy ydyw a thystiolaeth o'i awdurdod os y person sy'n gofyn iddo, neu felly yr ymddengys, yw—

(a) y gwerthwr, neu swyddog neu gyflogai i'r gwerthwr;

(b) perchennog neu feddiannydd unrhyw fangre lle y mae'r gweinyddwr yn ceisio arfer y pŵer o dan sylw.

(5) Nid oes dim ym mharagraff (2) sy'n gorfodi dangos unrhyw ddogfen—

(a) yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, y byddai gan y person hwnnw ar seiliau braint broffesiynol gyfreithiol yr hawl i beidio â'i dangos o dan orchymyn datgelu mewn achos yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys; neu

(b) yn yr Alban, y byddai gan y person hwnnw ar seiliau cyfrinachedd gohebiaeth yr hawl i beidio â'i dangos o dan orchymyn dangos dogfennau mewn achos yn y Llys Sesiwn.

**Gofynion yn ôl disgresiwn nad ydynt yn rhai ariannol: gorfodi**

**15**. Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosbau ariannol mewn achosion pan fo gwerthwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol(**1**) ac mae'r Atodlen honno'n cael effaith yn unol â hynny.

**Adennill costau gorfodi**

**16**.—(1) Caiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad adennill costau gorfodi") i werthwr y gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn arno yn ei gwneud yn ofynnol bod y gwerthwr hwnnw'n talu'r costau yr aed iddynt gan y gweinyddwr mewn perthynas â gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn hyd at amser ei osod ("costau gorfodi").

(2) Mae costau gorfodi yn cynnwys, yn benodol—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigwr (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i hysbysiad adennill costau gorfodi bennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu a rhaid iddo gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) sut y gellir talu;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu;

(c) yr hawl i apelio; a

(ch) y canlyniadau am fethu â thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

(**1**) I gael ystyr "*non-monetary discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(4) An administrator seeking to exercise a power under paragraph (2)(b) or (c) must produce evidence of identity and authority if requested by a person who is, or appears to be—

(a) the seller, or an officer or employee of the seller;

(b) an owner or occupier of any premises in which the administrator seeks to exercise the power concerned.

(5) Nothing in paragraph (2) compels the production of any document of which—

(a) in England and Wales or Northern Ireland, that person would on grounds of legal professional privilege be entitled to withhold production on an order for discovery in an action in the County Court or High Court; or

(b) in Scotland, that person would on grounds of confidentiality of communications be entitled to withhold production on an order for the production of documents in an action in the Court of Session.

**Non-monetary discretionary requirements: enforcement**

**15**. Schedule 4 makes provision for the imposition of monetary penalties in cases where a seller fails to comply with a non-monetary discretionary requirement(**1**) and that Schedule has effect accordingly.

**Enforcement costs recovery**

**16**.—(1) An administrator may serve a notice ("an enforcement costs recovery notice") on a seller on whom a discretionary requirement is imposed requiring that seller to pay the costs incurred by the administrator in relation to the imposition of the discretionary requirement up to the time of its imposition ("enforcement costs").

(2) Enforcement costs include, in particular—

(a) investigation costs;

(b) administration costs;

(c) costs of obtaining expert advice (including legal advice).

(3) An enforcement costs recovery notice must specify the amount required to be paid and must include information as to—

(a) how payment may be made;

(b) the date by which payment must be made;

(c) the right of appeal; and

(d) the consequences of failure to make payment by the date it is due.

(**1**) For the meaning of "non-monetary discretionary requirement" *see* paragraph 12(3)(b) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(4) Rhaid i'r dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad adennill costau gorfodi i'r gwerthwr.

(5) Rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad adennill costau gorfodi.

(6) Ond mae paragraff (5) yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn y rheoliad hwn a rheoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(7) Os yw penderfyniad gweinyddwr o dan y rheoliad hwn yn destun apêl, yna i'r graddau y caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyfernir yr apêl.

(8) Rhaid i weinyddwr ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau a bennir mewn hysbysiad adennill costau gorfodi os bydd y gwerthwr y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo yn gofyn amdano.

(9) Nid yw gwerthwr yn atebol i dalu unrhyw gostau y mae'r gwerthwr hwnnw'n dangos yr aed iddynt yn ddiangen.

(10) Caiff gwerthwr apelio—

(a) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod gofyniad i dalu costau;

(b) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr o ran swm y costau hynny.

**Adennill taliadau**

**17**. Caiff gweinyddwr adennill unrhyw gosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy, cosb am fethu â chydymffurfio, costau gorfodi neu gosb am fod yn hwyr yn talu—

(a) fel dyled sifil;

(b) ar orchymyn gan lys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

**Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil**

**18**.—(1) Caiff gweinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i werthwr y gosodwyd sancsiwn sifil arno(**1**).

(2) Y canlynol yw'r wybodaeth a bennir at ddibenion paragraff 19(2)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008—

(a) y math o sancsiwn sifil o dan sylw;

(b) y seiliau dros osod y sancsiwn;

(c) os oedd y sancsiwn yn gosb ariannol benodedig neu'n gosb ariannol amrywiadwy, swm y gosb honno;

(**1**) I gael ystyr "*publicity notice*" *gweler* paragraff 19(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(4) The date referred to in paragraph (3)(b) must be at least 28 days later than the date on which the enforcement costs recovery notice is served on the seller.

(5) Enforcement costs must be paid by the seller by the date specified in the enforcement costs recovery notice.

(6) But paragraph (5) is subject to the remaining provisions of this regulation and to regulation 21(4) (suspension of requirements and notices pending appeal).

(7) If a decision of an administrator under this regulation is the subject of an appeal, then to the extent that that decision is upheld, the seller must pay the enforcement costs within 28 days of the day on which the appeal is determined.

(8) An administrator must provide a detailed breakdown of the costs specified in an enforcement costs recovery notice if requested to do so by the seller on whom the notice is served.

(9) A seller is not liable to pay any costs shown by that seller to have been unnecessarily incurred.

(10) A seller may appeal—

(a) against a decision of an administrator to impose a requirement to pay costs;

(b) against a decision of an administrator as to the amount of those costs.

**Recovery of payments**

**17**. An administrator may recover any fixed monetary penalty, variable monetary penalty, non-compliance penalty, enforcement costs or late payment penalty—

(a) as a civil debt;

(b) on the order of a court, as if payable under a court order.

**Publicity for imposition of civil sanctions**

**18**.—(1) An administrator may give a publicity notice to a seller on whom a civil sanction has been imposed(**1**).

(2) The following is the information specified for the purposes of paragraph 19(2)(b) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008—

(a) the type of civil sanction concerned;

(b) the grounds on which the sanction was imposed;

(c) if the sanction was a fixed or variable monetary penalty, the amount of that penalty;

(**1**) For the meaning of "publicity notice" *see* paragraph 19(2) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(ch) os oedd y sancsiwn yn ofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n ariannol, natur y gofyniad o dan sylw.

(3) Rhaid i hysbysiad cyhoeddusrwydd—

(a) pennu'r dull cyhoeddi sy'n ofynnol;

(b) pennu'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r hysbysiad o fewn amser a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Os bydd gwerthwr yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cyhoeddusrwydd o fewn yr amser a bennir o dan baragraff (3)(b), caiff y gweinyddwr—

(a) rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd iddi gan yr hysbysiad; a

(b) adennill y costau o wneud hynny oddi wrth y gwerthwr o dan sylw.

(5) Pan fo gweinyddwr yn rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth o dan baragraff (4)(a) rhaid iddo wneud hynny mewn dull y mae'n ystyried yw'r dull mwyaf tebygol i ddwyn yr wybodaeth i sylw aelodau o'r cyhoedd yn ei ardal.

(d) if the sanction was a non-monetary discretionary requirement, the nature of the requirement in question.

(3) A publicity notice must—

(a) specify the manner of publication required;

(b) specify the time for compliance with the notice;

(c) require the seller to provide evidence of compliance with the notice within a time specified in the notice.

(4) If a seller fails to comply with a publicity notice within the time specified under paragraph (3)(b), the administrator may—

(a) publicise the information required to be publicised by the notice; and

(b) recover the costs of doing so from the seller in question.

(5) Where an administrator publicises information under paragraph (4)(a) it must do so in a way it considers most likely to bring the information to the attention of members of the public in its area.

**RHAN 7**

## Gweinyddu

**Cwmpas pwerau gweinyddwyr**

**19**. Mae'r swyddogaethau a roddir i weinyddwr gan y Rheoliadau hyn yn arferadwy gan weinyddwr yn ei ardal ac mewn perthynas â hi.

**Tynnu hysbysiad yn ôl neu ei ddiwygio**

**20**.—(1) Caiff gweinyddwr ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig—

(a) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol benodedig;

(b) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol amrywiadwy neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

(c) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n ariannol neu ddiwygio'r camau a bennir yn yr hysbysiad er mwyn lleihau swm y gwaith angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad;

(ch) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb am beidio â chydymffurfio neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

**PART 7**

## Administration

**Scope of administrators' powers**

**19**. The functions conferred on an administrator by these Regulations are exercisable by an administrator in, and in relation to, its area.

**Withdrawing or amending a notice**

**20.**—(1) An administrator may at any time in writing-

(a) withdraw a notice of intent or a final notice in relation to a fixed monetary penalty;

(b) withdraw a notice of intent or final notice in relation to a variable monetary penalty or reduce the amount specified in the notice;

(c) withdraw a notice of intent or a final notice in relation to a non-monetary discretionary requirement or amend the steps specified in the notice so as to reduce the amount of work necessary to comply with the notice;

(d) withdraw a notice of intent in relation to a non-compliance penalty or reduce the amount specified in the notice;

(d) tynnu'n ôl hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

(dd) tynnu'n ôl hysbysiad adennill costau gorfodi neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i weinyddwr ymgynghori â'r gwerthwr o dan sylw cyn tynnu hysbysiad yn ôl neu ei ddiwygio o dan baragraff (1).

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys yn unrhyw achos os nad yw'n ymarferol i ymgynghori â'r gwerthwr o dan sylw.

**Apelau**

**21**.—(1) Mae apêl o dan y Rheoliadau hyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf(**1**) ("y Tribiwnlys").

(2) Yn unrhyw apêl pan fo cyflawni toriad yn y Rheoliadau yn fater sy'n gofyn am ddyfarniad, rhaid i'r gweinyddwr brofi'r toriad hwnnw yn y Rheoliadau yn ôl pwysau tebygolrwydd.

(3) Yn unrhyw achos arall rhaid i'r Tribiwnlys ddyfarnu safon y prawf.

(4) Mae gofyniad neu hysbysiad sy'n destun apêl yn cael eu hatal tra disgwylir dyfarniad i'r apêl.

(5) Caiff y Tribiwnlys, mewn perthynas â gosod gofyniad neu gyflwyno hysbysiad—

(a) tynnu'n ôl y gofyniad neu'r hysbysiad;

(b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(c) cymryd y camau hynny y gallai gweinyddwr eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a roes fod i'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(ch) dychwelyd y penderfyniad ai cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at y gweinyddwr.

**Canllawiau o ran defnyddio sancsiynau sifil**

**22**.—(1) Rhaid i weinyddwr gyhoeddi canllawiau am ei ddefnydd o sancsiynau sifil o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys yr wybodaeth berthnasol (gweler paragraffau (5) a (6)).

(3) Rhaid i weinyddwr ddiwygio'r canllawiau lle y mae hynny'n briodol.

(**1**) Trosglwyddir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 5B(a) o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uchaf (Siambrau) 2008 (O.S. 2008/2684, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/196, 2009/1021 a 2009/1590). Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976) yn gosod rheolau gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r cyfryw apelau.

(e) withdraw a non-compliance penalty notice or reduce the amount specified in the notice;

(f) withdraw an enforcement costs recovery notice or reduce the amount specified in the notice.

(2) An administrator must consult the seller in question before withdrawing or amending a notice under paragraph (1).

(3) But paragraph (2) does not apply in any case where it is impracticable to consult the seller concerned.

**Appeals**

**21**.—(1) An appeal under these Regulations is to the First-tier Tribunal(**1**) ("the Tribunal").

(2) In any appeal where the commission of a breach is an issue requiring determination, the administrator must prove that breach on the balance of probabilities.

(3) In any other case the Tribunal must determine the standard of proof.

(4) A requirement or notice which is the subject of an appeal is suspended pending the determination of the appeal.

(5) The Tribunal may, in relation to the imposition of a requirement or service of a notice—

(a) withdraw the requirement or notice;

(b) confirm the requirement or notice;

(c) take such steps as the administrator could take in relation to the act or omission giving rise to the requirement or notice;

(d) remit the decision whether to confirm the requirement or notice, or any matter relating to that decision, to the administrator.

**Guidance as to use of civil sanctions**

**22**.—(1) An administrator must publish guidance about its use of civil sanctions under these Regulations.

(2) The guidance must contain the relevant information (see paragraphs (5) and (6)).

(3) An administrator must revise the guidance where appropriate.

(**1**) Appeals are assigned to the General Regulatory Chamber of the First-tier Tribunal by virtue of article 5B(a) of the First-tier Tribunal and Upper Tribunal (Chambers) Order 2008 (S.I. 2008/2684, amended by S.I. 2009/196, 2009/1021 and 2009/1590). The Tribunal Procedure (First-tier Tribunal) (General Regulatory Chamber) Rules 2009 (S.I. 2009/1976) sets out procedural rules relating to such appeals.

(4) Rhaid i'r gweinyddwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

(5) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw'r wybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gosb yn debygol o gael ei gosod;

(b) o dan ba amgylchiadau ni chaniateir gosod y gosb;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd am y gosb ac effaith y rhyddhad;

(d) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau; a

(dd) hawliau i apelio.

(6) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â gofyniad yn ôl disgresiwn, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw'r wybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gofyniad yn debygol o gael ei osod;

(b) o dan ba amgylchiadau ni chaniateir gosod y gofyniad;

(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, y materion sy'n debygol o gael eu cymryd i ystyriaeth gan y gweinyddwr wrth iddo ddyfarnu swm y gosb (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, unrhyw ddisgownt am adrodd yn wirfoddol am beidio â chydymffurfio);

(ch) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau; a

(d) hawliau i apelio.

**Canllawiau ychwanegol**

**23**.—(1) Rhaid i weinyddwr gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y bydd yn arfer y pwerau a roddir gan reoliad 15 ac Atodlen 4 (cosbau am beidio â chydymffurfio) a rheoliad 16 (adennill costau gorfodi).

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys, yn benodol, gwybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r pwerau'n debygol o gael eu harfer;

(b) y materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu'r symiau mewn golwg;

(c) hawliau i apelio.

(3) Rhaid i weinyddwr ddiwygio'r canllawiau lle y mae hynny'n briodol.

(4) Rhaid i weinyddwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

(4) An administrator must have regard to the guidance or revised guidance in exercising its functions.

(5) In the case of guidance relating to a fixed monetary penalty, the relevant information referred to in paragraph (2) is information as to—

(a) the circumstances in which the penalty is likely to be imposed;

(b) the circumstances in which the penalty may not be imposed;

(c) the amount of the penalty;

(d) how liability for the penalty may be discharged and the effect of discharge;

(e) rights to make representations and objections; and

(f) rights of appeal.

(6) In the case of guidance relating to a discretionary requirement, the relevant information referred to in paragraph (2) is information as to—

(a) the circumstances in which the requirement is likely to be imposed;

(b) the circumstances in which the requirement may not be imposed;

(c) in the case of a variable monetary penalty, the matters likely to be taken into account by the administrator in determining the amount of the penalty (including, where relevant, any discounts for voluntary reporting of non-compliance);

(d) rights to make representations and objections; and

(e) rights of appeal.

**Additional guidance**

**23**.—(1) An administrator must publish guidance about how it will exercise the powers conferred by regulation 15 and Schedule 4 (non-compliance penalties) and regulation 16 (enforcement costs recovery).

(2) The guidance must include, in particular, information as to—

(a) the circumstances in which the powers are likely to be exercised;

(b) matters to be taken into account in determining the amounts involved;

(c) rights of appeal.

(3) An administrator must revise the guidance where appropriate.

(4) An administrator must have regard to the guidance or revised guidance in exercising its functions.

**Ymgynghori ar ganllawiau**

**24**. Cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau neu ganllawiau diwygiedig o dan y Rheoliadau hyn rhaid i weinyddwr ymgynghori â'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol;

(c) Cydffederasiwn Diwydiant Prydain;

(ch) Ffederasiwn Busnesau Bach;

(d) Consortiwm Manwerthu Prydain.

**Cyhoeddi camau gorfodi**

**25**.—(1) Rhaid i weinyddwr o bryd i'w gilydd gyhoeddi adroddiadau sy'n pennu—

(a) yr achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt am dorri'r Rheoliadau hyn;

(b) os cosb ariannol benodedig yw'r sancsiwn sifil, yr achosion y rhyddhawyd atebolrwydd rhag cosb ynddynt yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 (rhyddhau rhag atebolrwydd yn dilyn hysbysiad o fwriad).

(2) Ym mharagraff (1)(a) nid yw'r cyfeiriad at achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt yn cynnwys achosion pan osodwyd y sancsiwn ond pan gafodd ei wrthdroi ar apêl.

(3) Rhaid i weinyddwr beidio â chyhoeddi adroddiad mewn unrhyw achos pan fo Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r gweinyddwr yn ysgrifenedig y byddai'n amhriodol i wneud hynny.

**Consultation on guidance**

**24**. Before publishing any guidance or revised guidance under these Regulations an administrator must consult—

(a) the Welsh Ministers;

(b) the Local Better Regulation Office;

(c) the Confederation of British Industry;

(d) the Federation of Small Businesses;

(e) the British Retail Consortium.

**Publication of enforcement action**

**25**.—(1) An administrator must from time to time publish reports specifying—

(a) the cases in which a civil sanction for a breach of these Regulations has been imposed;

(b) where the civil sanction is a fixed monetary penalty, the cases in which liability to the penalty has been discharged in accordance with paragraph 4 of Schedule 2 (discharge of liability following notice of intent).

(2) In paragraph (1)(a) the reference to cases in which the civil sanction has been imposed does not include cases where the sanction has been imposed but overturned on appeal.

(3) An administrator must not publish a report in any case where the Welsh Ministers notify the administrator in writing that it would be inappropriate to do so.

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

30 Tachwedd 2010

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

30 November 2010

## ATODLEN 1

Rheoliad 7

**Esemptiadau**

**1**.—(1) Y mathau o fagiau siopa untro nad yw rheoliad 6 yn gymwys iddynt yw—

(a) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys bwyd heb ei becynnu ar gyfer ei fwyta gan bobl neu gan anifeiliaid;

(b) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys hadau, bylbiau, cormau neu risomau rhydd heb eu pecynnu;

(c) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys unrhyw fwyell, cyllell, llafn cyllell neu lafn rasel heb eu pecynnu;

(ch) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys nwyddau heb eu pecynnu ac a halogwyd gan bridd;

(d) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys y canlynol a gafodd eu pecynnu—

(i) pysgod neu gynhyrchion pysgod heb eu coginio;

(ii) cig neu gynhyrchion cig heb eu coginio;

(iii) dofednod neu gynhyrchion dofednod heb eu coginio,

y mae, mewn perthynas â hwy, uchafswm eu dimensiynau yn 205 o filimetrau ("mm") (lled) x 125 mm (lled cwysed) x 458 mm (uchder gan gynnwys handlenni);

(dd) bagiau wedi eu selio a gyflenwir gan werthwr cyn cyrraedd y man gwerthu;

(e) bagiau a ddefnyddir i gynnwys nwyddau a brynwyd ar fwrdd llongau, trenau, awyrennau, coetsis neu fysiau;

(f) bagiau a ddefnyddir i gynnwys nwyddau a brynwyd mewn man a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn fan o dan gyfyngiad diogelwch o dan adran 11A o Ddeddf Diogelwch wrth Hedfan 1982(**1**);

(ff) bagiau ar gyfer pecynnu a chyflenwi post neu nwyddau wth archebu drwy'r post;

(g) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl o bapur;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 175 mm (lled) x 260 mm (uchder);

(iii) nad oes ganddynt gwysed; a

(iv) nad oes ganddynt handlen;

(**1**) 1982 p.36; cafodd adran 11A ei mewnosod gan Ddeddf Diogelwch Awyrennol a Morol 1990 (p.31), Atodlen 1, paragraff 3; a'i diwygio gan O.S. 2010/902, rheoliadau 3 a 9(b).

## SCHEDULE 1

Regulation 7

**Exemptions**

**1**.—(1) The kinds of single use carrier bags to which regulation 6 does not apply are—

(a) bags used solely to contain unpackaged food for human or animal consumption;

(b) bags used solely to contain unpackaged loose seeds, bulbs, corms or rhizomes;

(c) bags used solely to contain any unpackaged axe, knife, knife blade or razor blade;

(d) bags used solely to contain unpackaged goods contaminated by soil;

(e) bags used solely to contain packaged—

(i) uncooked fish or fish products;

(ii) uncooked meat or meat products;

(iii) uncooked poultry or poultry products,

and in respect of which the maximum dimensions are 205 millimetres ("mm") (width) x 125 mm (gusset width) x 458 mm (height inclusive of handles);

(f) sealed bags supplied by a seller before the point of sale;

(g) bags used to contain purchases made on board ships, trains, aircraft, coaches or buses;

(h) bags used to contain purchases made in an area designated by the Secretary of State as a security restricted area under section 11A of the Aviation Security Act 1982(**1**);

(i) bags for packaging and delivery of mail or mail order goods;

(j) bags which—

(i) are made wholly from paper;

(ii) have maximum dimensions of 175 mm (width) x 260 mm (height);

(iii) do not have a gusset; and

(iv) do not have a handle;

(**1**) 1982 c.36; section 11A was inserted by the Aviation and Maritime Security Act 1990 (c.31), Schedule 1, paragraph 3; and amended by S.I. 2010/902, regulations 3 and 9(b).

(ng) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 125 mm (lled) x 125 mm (uchder);

(iii) nad oes ganddynt gwysed; a

(iv) nad oes ganddynt handlen;

(h) bagiau—

(i) a wnaed yn gyfan gwbl o bapur;

(ii) mae uchafswm eu dimensiynau yn 80 mm (lled) x 50 mm (lled cwysed) x 155 mm (uchder); a

(iii) nad oes ganddynt handlen;

(i) leininau â chwysed a ddefnyddir i leinio neu i lapio blychau, cratiau neu gynwysyddion eraill o natur debyg;

(j) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys creaduriaid byw dyfrol mewn dŵr;

(k) bagiau a ddefnyddir yn unig i gynnwys un eitem neu fwy o'r categorïau a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Y categorïau a bennir yw—

(a) cynnyrch meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a werthir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig, deintydd, rhagnodydd atodol, nyrs-ragnodydd annibynnol, nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol, optometrydd-ragnodydd annibynnol, fferyllydd-ragnodydd annibynnol neu broffesiynolyn iechyd yr AEE;

(b) pan werthir neu pan gyflenwir hwy heb fod yn unol â pharagraff (a),,meddyginiaeth fferyllol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cyfarpar rhestredig" yw cyfarpar rhestredig o fewn ystyr "*listed appliances*" yn unrhyw un o'r canlynol—

(a) adran 80 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**);

(b) erthygl 63 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**2**);

(c) adran 27 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**3**);

(ch) adran 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**4**);

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14), diwygiwyd gan 1978/1907 (G.I. 26); mae diwygiadau eraill ond nid oes unrhyw un yn berthnasol.

(**3**) 1978 p.29; mae diwygiadau i adran 27 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) 2006 p.41.

(k) bags which—

(i) are made wholly or mainly from plastic;

(ii) have maximum dimensions of 125 mm (width) x 125 mm (height);

(iii) do not have a gusset; and

(iv) do not have a handle;

(l) bags which—

(i) are made wholly from paper;

(ii) have maximum dimensions of 80 mm (width) x 50 mm (gusset width) x 155 mm (height); and

(iii) do not have a handle;

(m) gusseted liners used to line or cover boxes, crates or other containers of a similar nature;

(n) bags used solely to contain live aquatic creatures in water;

(o) bags used solely to contain one or more items from the categories specified in sub-paragraph (2).

(2) The specified categories are—

(a) medicinal products or listed appliances sold in accordance with a prescription issued by a registered medical practitioner, a dentist, a supplementary prescriber, a nurse independent prescriber, an independent nurse prescriber, an optometrist independent prescriber, a pharmacist independent prescriber or an EEA health professional;

(b) where sold or supplied otherwise than in accordance with paragraph (a), pharmacy medicine.

(3) In this paragraph—

"dentist" ("*deintydd*") means a person registered in the dentists register kept under section 14 of the Dentists Act 1984(**1**);

"EEA health professional" ("*proffesiynolyn iechyd yr AEE*") has the meaning given in regulation 1(2) of the Medicines for Human Use (Prescribing by EEA Practitioners) Regulations 2008(**2**);

"independent nurse prescriber" ("*nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol*") has the meaning given in regulation 2(1) of the National Health Service (Pharmaceutical Services) Regulations 1992(**3**);

(**1**) 1984 c.24; section 14 was substituted by S.I. 2005/2011, articles 2(1) and 6; and amended by S.I. 2007/3101, regulations 109 and 111.

(**2**) S.I. 2008/1692, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**3**) S.I. 1992/662; relevant amending instruments are S.I. 2003/2624 (W. 252), S.I. 2007/205 (W. 19) and S.I. 2010/1647 (W.155).

mae i "cynnyrch meddyginiaethol" yr ystyr a roddir i "*medicinal product*" yn adran 130 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**1**);

ystyr "deintydd" ("*dentist*") yw person sydd wedi'i gofrestru yn y gofrestr ddeintyddion a gedwir o dan adran 14 o Ddeddf Deintyddion 1984(**2**);

ystyr "heb ei becynnu" ("*unpackaged*") yw heb gael ei lapio'n gyfan gwbl neu'n rhannol;

ystyr "meddyginiaeth fferyllol" ("*pharmacy medicine*") yw cynnyrch meddyginiaethol nad yw'n feddyginiaeth drwy bresgripsiwn yn unig ac sydd—

(a) yn unol ag adran 52(**3**) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968, y gellir ei werthu neu ei gyflenwi yn unig o dan yr amodau a bennir yn is-adran (1)(a) i (c) o'r adran honno; neu

(b) heblaw am y ffaith y gellir ei werthu neu ei gyflenwi yn unol ag adran 55(**4**) o'r Ddeddf honno, dim ond o dan yr amodau hynny y gellid ei werthu neu ei gyflenwi'n gyfreithiol;

ystyr "meddyginiaeth drwy bresgripsiwn yn unig" ("*prescription only medicine*") yw cynnyrch meddyginiaethol—

(a) o ddisgrifiad neu sy'n dod o fewn dosbarth a bennir mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 58(**5**) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968;

(b) y mae adran 58 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 104(**6**) o'r Ddeddf honno;

mae i "nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol" yr ystyr a roddir i "*independent nurse prescriber*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**7**);

mae i "proffesiynolyn iechyd yr AEE" yr ystyr a roddir i "*EEA health professional*" yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Rhagnodi gan Ymarferwyr AEE) 2008(**8**); ac

(**1**) 1968 p.67; diwygiwyd adran 130 gan O.S. 1994/3119, rheoliad 2(b); ac O.S. 2005/50, rheoliad 25(1)(c) a (d); mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol.

(**2**) 1984 p.24; amnewidiwyd adran 14 gan O.S. 2005/2011, erthyglau 2(1) a 6; ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3101 rheoliadau 109 a 111.

(**3**) Diwygiwyd adran 52 gan Ddeddf Iechyd 2006 (p.28); mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol.

(**4**) Diwygiwyd adran 55 gan O.S. 2004/1771, erthygl 3 a pharagraff 10(b) o'r Atodlen; gan O.S. 2006/2407, paragraffau 1 a 26 o Atodlen 8.

(**5**) Mae diwygiadau i adran 58 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) Diwygiwyd adran 104 gan O.S. 2004/1031, rheoliad 54 a pharagraff 17 o Atodlen 10; a chan O.S. 2006/2407, paragraffau 1 a 54 o Atodlen 8.

(**7**) O.S. 1992/662; O.S. 2003/2624 (Cy.252), O.S. 2007/205 (Cy. 19) ac O.S. 2010/1647 (Cy.155) yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(**8**) O.S. 2008/1692, mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"listed appliances" ("*cyfarpar rhestredig*") means listed appliances within the meaning of any of the following—

(a) section 80 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**);

(b) article 63 of the Health and Personal Social Services (Northern Ireland) Order 1972(**2**);

(c) section 27 of the National Health Service (Scotland) Act 1978(**3**);

(d) section 126 of the National Health Service Act 2006(**4**);

"medicinal product" ("*cynnyrch meddyginiaethol*") has the meaning given in section 130 of the Medicines Act 1968(**5**);

"pharmacy medicine" ("*meddyginiaeth fferyllol*") means a medicinal product which is not a prescription only medicine and which—

(a) in accordance with section 52(**6**) of the Medicines Act 1968, can only be sold or supplied under the conditions specified in sub-section (1)(a) to (c) of that section; or

(b) but for the fact that it is sold or supplied in accordance with section 55(**7**) of that Act, could only lawfully be sold or supplied under those conditions;

"prescription only medicine" ("*meddyginiaeth drwy bresgripsiwn yn unig*") means a medicinal product—

(a) of a description or falling within a class specified in an order made under section 58(**8**) of the Medicines Act 1968;

(b) to which section 58 of that Act applies by virtue of an order made under section 104(**9**) of that Act;

"supplementary prescriber" ("*rhagnodydd atodol*"), "nurse independent prescriber" ("*nyrs-ragnodydd*

(**1**) 2006 c.42.

(**2**) S.I. 1972/1265 (N.I. 14), amended by 1978/1907 (N.I. 26); there are other amendments but none is relevant.

(**3**) 1978 c.29; there are amendments to section 27 which are not relevant to these Regulations.

(**4**) 2006 c.41.

(**5**) 1968 c.67; section 130 was amended by S.I. 1994/3119, regulation 2(b); and S.I. 2005/50, regulation 25(1)(c) and (d); there are other amendments but none is relevant.

(**6**) Section 52 was amended by the Health Act 2006 (c.28); there are other amendments but none is relevant.

(**7**) Section 55 was amended by S.I. 2004/1771, article 3 and paragraph 10(b) of the Schedule; by S.I. 2006/2407, paragraphs 1 and 26 of Schedule 8.

(**8**) There are amendments to section 58 which are not relevant to these Regulations.

(**9**) Section 104 was amended by S.I. 2004/1031, regulation 54 and paragraph 17 of Schedule 10; and by S.I. 2006/2407, paragraphs 1 and 54 of Schedule 8.

mae i "rhagnodydd atodol", "nyrs-ragnodydd annibynnol", "optometrydd-ragnodydd annibynnol" a "fferyllydd-ragnodydd annibynnol" yr ystyr a briodolir i "*supplementary prescriber*", "*nurse independent prescriber*", "*optometrist independent prescriber*" a "*pharmacist independent prescriber*" yn ôl eu trefn yn erthygl 1(2) o Orchymyn Meddyginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997(**1**).

*annibynnol*"), "optometrist independent prescriber" ("*optometrydd-ragnodydd annibynnol*") and "pharmacist independent prescriber" ("*fferyllydd-ragnodydd annibynnol*") each have the meanings respectively ascribed to them in article 1(2) of the Prescription Only Medicines (Human Use) Order 1997(**1**);

"unpackaged" ("*heb ei becynnu*") means wholly or partly unwrapped.

## ATODLEN 2

Rheoliad 12

## Cosbau ariannol penodedig

### RHAN 1

### Gosod cosbau ariannol penodedig a gweithdrefn

**Y pŵer i osod cosb ariannol benodedig**

**1**.—(1) Caiff gweinyddwr drwy hysbysiad osod cosb ariannol benodedig ar werthwr sy'n torri'r Rheoliadau hyn o dan yr amgylchiadau a bennir yn rheoliad 11(2).

(2) Caiff gweinyddwr arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (1) mewn perthynas ag achos os yw wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y toriad yn y Rheoliadau wedi digwydd.

**Cosbau ariannol penodedig**

**2**. Swm y gosb y gellir ei gosod gan weinyddwr fel cosb ariannol benodedig mewn unrhyw achos yw'r swm a bennir yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 drwy gyfeirio at y math o doriad yn y Rheoliadau sydd o dan sylw.

**Hysbysiad o Fwriad**

**3**.—(1) Pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar werthwr, rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad i'r gwerthwr hwnnw(**2**).

(2) Rhaid i hysbysiad o fwriad—

(a) datgan swm y gosb;

(b) cynnig y cyfle i'r gwerthwr ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb drwy dalu'r swm

## SCHEDULE 2

Regulation 12

## Fixed monetary penalties

### PART 1

### Imposition of fixed monetary penalties and procedure

**Power to impose fixed monetary penalty**

**1**.—(1) An administrator may by notice impose a fixed monetary penalty on a seller who breaches these Regulations in the circumstances specified in regulation 11(1).

(2) An administrator may exercise the power conferred by sub-paragraph (1) in relation to a case if it is satisfied on the balance of probabilities that the breach has occurred.

**Fixed monetary penalties**

**2**. The amount of penalty which can be imposed by an administrator as a fixed monetary penalty in any case is the amount specified in the second column of the table in Part 2 by reference to the kind of breach concerned.

**Notice of Intent**

**3**.—(1) Where an administrator proposes to impose a fixed monetary penalty on a seller, the administrator must serve a notice of intent on that seller(**2**).

(2) A notice of intent must—

(a) state the amount of the penalty;

(b) offer the seller the opportunity to discharge its liability to the penalty by paying the specified

(**1**) O.S. 1997/1830; O.S. 2003/696, O.S. 2004/1771, O.S. 2005/765, O.S. 2006/915 ac O.S. 2010/1621 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(**2**) I gael ystyr "*notice of intent*" *gweler* paragraff 11(1)(a) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(**1**) S.I. 1997/1830; relevant amending instruments are S.I. 2003/696. S.I. 2004/1771, S.I. 2005/765, S.I. 2006/915, S.I. 2010/1621.

(**2**) For the meaning of "*notice of intent*" *see* paragraph 11(1)(a) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

penodedig o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad;

(c) cynnwys gwybodaeth o ran—

(i) y seiliau am y bwriad i osod cosb ariannol benodedig;

(ii) effaith talu'r swm penodedig;

(iii) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a roddir gan baragraff 5;

(iv) o dan ba amgylchiadau ni chaiff y gweinyddwr osod y gosb ariannol benodedig;

(v) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y caniateir rhyddhau rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig yn rhinwedd paragraff 4;

(vi) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y ceir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynddo;

(vii) sut y gellir talu.

**Rhyddhau rhag atebolrwydd yn dilyn hysbysiad o fwriad**

**4**.—(1) Caiff atebolrwydd gwerthwr i gosb ariannol benodedig ei ryddhau os bydd y gwerthwr yn talu'r swm penodedig o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad sy'n ymwneud ag ef.

(2) Y swm penodedig yw'r swm a bennir yn nhrydedd golofn y tabl yn Rhan 2 drwy gyfeirio at y math o doriad yn y Rheoliadau sydd o dan sylw.

**Gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau**

**5**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os na fydd gwerthwr yn rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig drwy dalu'r swm penodedig.

(2) O fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cafodd y gwerthwr yr hysbysiad o fwriad, caiff y gwerthwr wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod.

**Penderfynu ai gosod cosb ariannol benodedig ai peidio**

**6**.—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 5, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai gosod y gosb ariannol benodedig ai peidio.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i weinyddwr gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â'r paragraff hwnnw.

(3) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu gosod cosb ariannol benodedig yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau canlynol—

sum within 28 days beginning with the day on which the notice is received;

(c) include information as to—

(i) the grounds for the proposal to impose the fixed monetary penalty;

(ii) the effect of payment of the specified sum;

(iii) the right to make representations and objections conferred by paragraph 5;

(iv) the circumstances in which the administrator may not impose the fixed monetary penalty;

(v) the 28 day period within which liability to the fixed monetary penalty may be discharged by virtue of paragraph 4;

(vi) the 28 day period within which representations and objections may be made;

(vii) how payment may be made.

**Discharge of liability following notice of intent**

**4**.—(1) A seller's liability to a fixed monetary penalty is discharged if the seller pays the specified sum within 28 days beginning with the day on which the notice of intent to which it relates was received.

(2) The specified sum is the amount specified in the third column of the table in Part 2 by reference to the kind of breach concerned.

**Making representations and objections**

**5**.—(1) This paragraph applies if a seller does not discharge its liability to a fixed monetary penalty by payment of the specified sum.

(2) Within 28 days of the day on which the notice of intent was received by the seller, the seller may make written representations and objections to the administrator in relation to the proposed imposition of the fixed monetary penalty.

**Decision whether to impose a fixed monetary penalty**

**6**.—(1) At the end of the 28 day period for making representations and objections under paragraph 5, the administrator must decide whether to impose the fixed monetary penalty.

(2) In making a decision under this paragraph an administrator must take into consideration any representations or objections made by the seller in accordance with that paragraph.

(3) An administrator may not decide to impose a fixed monetary penalty in any of the following circumstances—

(a) os cafwyd rhyddhad rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu'r swm penodedig;

(b) os gosodwyd eisoes gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau;

(c) os gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

(4) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb benodedig os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(5) Pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno'r hysbysiad terfynol i'r gwerthwr(**1**).

(6) Rhaid i'r hysbysiad terfynol gydymffurfio â pharagraff 7.

**Cynnwys hysbysiad terfynol**

**7**. Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gosb ariannol benodedig;

(b) ymateb y gweinyddwr i unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gellir talu;

(d) y cyfnod o 56 o ddiwrnodau y mae'n rhaid talu ynddo;

(dd) effaith paragraff 9 (disgownt am dalu'n gynnar);

(e) effaith paragraff 10 (cosb am dalu'n hwyr);

(f) hawliau i apelio; ac

(ff) canlyniadau peidio â thalu.

**Talu**

**8**.—(1) Rhaid talu cosb ariannol benodedig o fewn 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n gosod y gosb.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i reoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(2) Os bydd penderfyniad i osod cosb ariannol benodedig yn destun apêl, yna os caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y dyfernir yr apêl.

(**1**) I gael ystyr "*the final notice*" *gweler* paragraff 11(1)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(a) if liability to a fixed monetary penalty in respect of the same breach has been discharged by payment of the specified sum;

(b) if a fixed monetary penalty has previously been imposed in respect of the same breach;

(c) if a discretionary requirement has been imposed in respect of the same act or omission;

(4) Without restricting the power under sub-paragraph (1), an administrator may decide not to impose a fixed penalty if the administrator considers that in all the circumstances of the case it would be inexpedient to do so.

(5) Where the administrator decides to impose the fixed monetary penalty it must do so by serving the final notice on the seller(**1**).

(6) The final notice must comply with paragraph 7.

**Contents of final notice**

**7**. The final notice must include information as to—

(a) the grounds for imposing the fixed monetary penalty;

(b) the administrator's response to any representation and objections made by the seller;

(c) the amount of the penalty;

(d) how payment may be made;

(e) the period of 56 days within which payment must be made;

(f) the effect of paragraph 9 (early payment discount);

(g) the effect of paragraph 10 (late payment penalty);

(h) rights of appeal; and

(i) the consequences of non-payment.

**Payment**

**8**.—(1) A fixed monetary penalty must be paid by a seller within 56 days beginning with the day on which the final notice imposing it was received.

But this is subject to regulation 21(4) (suspension of requirements and notices pending appeal).

(2) If a decision to impose a fixed monetary penalty is the subject of an appeal then if that decision is upheld, the penalty must be paid by the seller within 28 days beginning with the day on which the appeal is determined.

(**1**) For the meaning of "the final notice" *see* paragraph 11(1)(d) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

**Disgownt am dalu'n gynnar**

**9**. Caiff gwerthwr ryddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig drwy dalu 50% o swm y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n ei gosod.

**Cosb am dalu'n hwyr**

**10**. Os na thelir cosb ariannol benodedig o fewn y cyfnod a ganiateir yn unol â pharagraff 8 cynyddir swm y gosb gan 50%.

**Seiliau apêl**

**11**.—(1) Caiff gwerthwr apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod cosb ariannol benodedig.

(2) Y seiliau ar gyfer apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall, neu

(ch) unrhyw reswm arall.

**RHAN 2**

Symiau cosbau ariannol penodedig a symiau penodedig

| *Toriad yn y Rheoliadau* | *Swm y gosb y gellir ei gosod yn gosb ariannol benodedig* | *Symiau penodedig* |
|---|---|---|
| Methiant i gydymffurfio â'r gofyniad i godi tâl yn unol â rheoliad 6 (rheoliad 11(1) a (2)) | £200 | £100 |
| Methiant i gadw cofnodion yn unol â rheoliad 8 (rheoliad 11(1) a (2)) | £100 | £50 |

**Early payment discount**

**9**. A seller may discharge its liability to a fixed monetary penalty by paying 50% of the amount of the penalty within 28 days beginning with the day on which the final notice imposing it was received.

**Late payment penalty**

**10**. If a fixed monetary penalty is not paid within the period allowed in accordance with paragraph 8 the amount of the penalty is increased by 50%.

**Grounds of appeal**

**11**.—(1) A seller may appeal against an administrator's decision to impose a fixed monetary penalty.

(2) The grounds of appeal are—

(a) that the decision was based on an error of fact;

(b) that the decision was wrong in law;

(c) that the decision was unreasonable for any other reason;

(d) any other reason.

**PART 2**

Fixed monetary penalty amounts and specified sums

| *Breach* | *Amount of penalty which can be imposed as a fixed monetary penalty* | *Specified sums* |
|---|---|---|
| Failure to comply with the requirement to charge in accordance with regulation 6 (regulation 11(1) and (2)) | £200 | £100 |
| Failure to keep records in accordance with regulation 8 (regulation 11(1) and (2)) | £100 | £50 |

| | | |
|---|---|---|
| Methiant i ddal gafael ar gofnodion yn unol â rheoliad 8 (rheoliad 11(1) a (2)) | £100 | £50 |
| Methiant i gyflenwi cofnodion yn unol â rheoliad 9 (rheoliad 11(1) a (2)) | £100 | £50 |
| Methiant i gyhoeddi cofnodion yn unol â rheoliad 10 (rheoliad 11(1) a (2)) | £100 | £50 |

| | | |
|---|---|---|
| Failure to retain records in accordance with regulation 8 (regulation 11(1) and (2)) | £100 | £50 |
| Failure to supply records in accordance with regulation 9 (regulation 11(1) and (2)) | £100 | £50 |
| Failure to publish records in accordance with regulation 10 (regulation 11(1) and (2)) | £100 | £50 |

## ATODLEN 3

Rheoliad 12

## Gofynion yn ôl disgresiwn

### RHAN 1

### Gosod gofynion yn ôl disgresiwn a gweithdrefn

**Pŵer i osod gofynion yn ôl disgresiwn**

**1**.—(1) Caiff gweinyddwr drwy hysbysiad osod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn ar werthwr sy'n torri'r Rheoliadau hyn(**1**).

(2) Caiff gweinyddwr arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (1) mewn perthynas ag achos os yw wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y toriad yn y Rheoliadau wedi digwydd.

**Cosbau ariannol amrywiadwy: uchafsymiau**

**2**. Uchafswm y gosb y caiff gweinyddwr ei gosod fel cosb ariannol amrywiadwy mewn perthynas ag unrhyw fath o doriad penodol yn y Rheoliadau yw'r swm a bennir yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 drwy gyfeirio at y math o doriad yn y Rheoliadau sydd o dan sylw(**2**).

(**1**) I gael ystyr "*discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(**2**) I gael ystyr "*variable monetary penalty*" *gweler* paragraff 12(4) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

## SCHEDULE 3

Regulation 12

## Discretionary requirements

### PART 1

### Imposition of discretionary requirements and procedure

**Power to impose discretionary requirements**

**1**.—(1) An administrator may by notice impose one or more discretionary requirements on a seller who breaches these Regulations(**1**).

(2) An administrator may exercise the power conferred by sub-paragraph (1) in relation to a case if it is satisfied on the balance of probabilities that the breach has occurred.

**Variable monetary penalties: maximum amounts**

**2**. The maximum penalty which may be imposed by an administrator as a variable monetary penalty in respect of any particular kind of breach is the amount specified in the second column of the table in Part 2 by reference to the kind of breach concerned(**2**).

(**1**) For the meaning of "discretionary requirement" *see* paragraph 12(3) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(**2**) For the meaning of "variable monetary penalty" *see* paragraph 12(4) of schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

**Hysbysiad o Fwriad**

**3**.—(1) Pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn ar werthwr, rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad i'r gwerthwr hwnnw(**1**).

(2) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad—

(a) os yw'r gweinyddwr yn bwriadu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol(**2**)—

(i) pennu'r camau y mae'r gweinyddwr yn bwriadu fydd yn ofynnol i'r gwerthwr eu cymryd;

(ii) pennu'r cyfnod o amser y mae'r gweinyddwr yn ei fwriadu i'r camau hynny gael eu cwblhau ynddo;

(b) os yw'r gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb ariannol amrywiadwy, pennu swm y gosb a gynigir;

(c) cynnwys gwybodaeth o ran—

(i) y seiliau am y bwriad i osod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn;

(ii) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a roddir gan baragraff 4;

(iii) o dan ba amgylchiadau ni chaiff gweinyddwr osod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn;

(iv) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y caniateir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynddo;

(v) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, sut y gellir talu.

**Gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau**

**4**. O fewn y 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r gwerthwr yn cael yr hysbysiad o fwriad, caiff y gwerthwr wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r bwriad i osod un neu fwy o ofynion yn ôl disgresiwn.

**Penderfynu ai gosod gofynion yn ôl disgresiwn ai peidio**

**5**.—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 4, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai—

(a) gosod un neu ragor o ofynion yn ôl disgresiwn gydag addasiadau neu hebddynt; neu

(b) gosod unrhyw ofyniad arall yn ôl disgresiwn y mae gan y gweinyddwr y pŵer i'w osod o dan yr Atodlen hon.

(**1**) I gael ystyr "*notice of intent*" *gweler* paragraff 13(1)(a) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(**2**) I gael ystyr "*non-monetary discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(4) o'r Ddeddf honno.

**Notice of intent**

**3**.—(1) Where an administrator proposes to impose one or more discretionary requirements on a seller, the administrator must serve a notice of intent on that seller(**1**).

(2) The notice of intent must—

(a) if the administrator proposes to impose a non-monetary discretionary requirement(**2**)—

(i) specify the steps that the administrator proposes the seller be required to take;

(ii) specify the time period within which the administrator proposes that those steps are to be completed;

(b) if the administrator proposes to impose a variable monetary penalty, specify the amount of penalty proposed;

(c) include information as to—

(i) the grounds for the proposal to impose the one or more discretionary requirements;

(ii) the right to make representations and objections conferred by paragraph 4;

(iii) the circumstances in which the administrator may not impose the one or more discretionary requirements;

(iv) the 28 day period within which representations and objections may be made;

(v) in the case of a variable monetary penalty, how payment may be made.

**Making representations and objections**

**4**. Within 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received by the seller, the seller may make written representations and objections to the administrator in relation to the proposed imposition of the one or more discretionary requirements.

**Decision whether to impose discretionary requirements**

**5**.—(1) After the end of the 28 day period for making representations and objections under paragraph 4, the administrator must decide whether to—

(a) impose the one or more discretionary requirements with or without modifications; or

(b) impose any other discretionary requirement that the administrator has the power to impose under this Schedule.

(**1**) For the meaning of "notice of intent" *see* paragraph 13(1)(a) of Schedule 6 to that Act.

(**2**) For the meaning of "non-monetary discretionary requirement" *see* paragraph 12(4) of that Act.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i weinyddwr ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â pharagraff 4.

(3) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol—

(a) os gosodwyd eisoes ofyniad yn ôl disgresiwn mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith;

(b) os cafwyd eisoes ryddhad rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu swm penodedig;

(c) os gosodwyd cosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau.

(4) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu o dan y paragraff hwn i osod cosb ariannol benodedig yn lle gofyniad yn ôl disgresiwn.

(5) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu beidio â gosod gofyniad yn ôl disgresiwn os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(6) Pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn, rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno'r hysbysiad terfynol i'r gwerthwr(**1**).

(7) Rhaid i'r hysbysiad terfynol gydymffurfio â pharagraff 6.

**Cynnwys hysbysiad terfynol**

**6**. Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau am osod un neu ragor o ofynion yn ôl disgresiwn;

(b) ymateb y gweinyddwr i unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr, gan gynnwys yr effaith (os oes un) ar swm y gosb ariannol amrywiadwy a osodwyd;

(c) os yw'r gofyniad yn ôl disgresiwn yn ofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol—

(i) y camau y mae'n ofynnol i'r gwerthwr eu cymryd;

(ii) y cyfnod o amser y mae'n rhaid cwblhau'r camau hynny ynddo;

(ch) pan fo'r gofyniad yn ôl disgresiwn yn gosb ariannol amrywiadwy—

(i) swm y gosb;

(ii) sut y gellir talu;

(iii) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid talu;

(**1**) I gael ystyr "*the final notice*" *gweler* paragraff 13(1)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(2) In making a decision under this paragraph an administrator must take into consideration any representations or objections made by the seller in accordance with paragraph 4.

(3) An administrator may not decide to impose a discretionary requirement in any of the following circumstances—

(a) if a discretionary requirement has previously been imposed in relation to the same act or omission;

(b) if liability to a fixed monetary penalty in respect of the same breach has been discharged by payment of a specified sum;

(c) if a fixed monetary penalty has been imposed in respect of the same breach.

(4) An administrator may not decide under this paragraph to impose a fixed monetary penalty in place of a discretionary requirement.

(5) Without restricting the power under sub-paragraph (1), an administrator may decide not to impose a discretionary requirement if the administrator considers that in all the circumstances of the case it would be inexpedient to do so.

(6) Where an administrator decides to impose a discretionary requirement it must do so by serving the final notice on the seller(**1**).

(7) The final notice must comply with paragraph 6.

**Contents of a final notice**

**6**. The final notice must include information as to—

(a) the grounds for imposing the one or more discretionary requirements;

(b) the administrator's response to any representation and objections made by the seller, including the effect (if any) on the amount of any variable monetary penalty imposed;

(c) where the discretionary requirement is a non-monetary discretionary requirement—

(i) the steps the seller is required to take;

(ii) the period within which those steps must be completed;

(d) where the discretionary requirement is a variable monetary penalty—

(i) the amount of the penalty;

(ii) how payment may be made;

(iii) the period within which payment must be made;

(**1**) For the meaning of "the final notice" *see* paragraph 13(1)(d) of Schedule 6 to the Climate Change Act 2008.

(iv) effaith paragraff 8 (disgownt am dalu'n gynnar);

(v) effaith paragraff 9 (cosb am dalu'n hwyr);

(d) hawliau i apelio; ac

(dd) y canlyniadau am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

**Talu**

**7**.—(1) Rhaid i'r gwerthwr dalu cosb ariannol amrywiadwy o fewn 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n ei gosod.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i reoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(2) Os bydd penderfyniad i osod cosb ariannol amrywiadwy yn destun apêl yna i'r graddau y caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y dyfernir yr apêl.

**Disgownt am dalu'n gynnar**

**8**. Caiff gwerthwr ryddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol amrywiadwy drwy dalu 50% o swm y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n ei gosod.

**Cosb am dalu'n hwyr**

**9**. Os na thelir cosb ariannol amrywiadwy o fewn y cyfnod a ganiateir yn unol â pharagraff 7 cynyddir y swm sy'n daladwy gan 50%.

**Seiliau apêl**

**10**.—(1) Caiff gwerthwr apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod gofyniad yn ôl disgresiwn.

(2) Y seiliau ar gyfer apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) mewn achos o gosb ariannol amrywiadwy, bod swm y gosb yn afresymol;

(ch) mewn achos o ofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol, bod natur y gofyniad yn afresymol;

(d) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall;

(dd) unrhyw reswm arall.

(iv) the effect of paragraph 8 (early payment discount)

(v) the effect of paragraph 9 (late payment penalty);

(e) rights of appeal; and

(f) the consequences of failing to comply with the notice.

**Payment**

**7**.—(1) A variable monetary penalty must be paid by a seller within 56 days beginning with the day on which the final notice imposing it was received.

But this is subject to regulation 21(4) (suspension of requirements and notices pending appeal).

(2) If the decision to impose a variable monetary penalty is the subject of an appeal then to the extent that that decision is upheld, the penalty must be paid by the seller within 28 days beginning with the day on which the appeal is determined.

**Early payment discount**

**8**. A seller may discharge its liability to a variable monetary penalty by paying 50% of the amount of the penalty within 28 days beginning with the day on which the final notice imposing it is received.

**Late payment penalty**

**9**. If a variable monetary penalty is not paid within the period allowed in accordance with paragraph 7 the amount payable is increased by 50%.

**Grounds of appeal**

**10**.—(1) A seller may appeal against an administrator's decision to impose a discretionary requirement.

(2) The grounds of appeal are—

(a) that the decision was based on an error of fact;

(b) that the decision was wrong in law;

(c) in case of a variable monetary penalty, that the amount of the penalty is unreasonable;

(d) in the case of a non-monetary discretionary requirement, that the nature of the requirement is unreasonable;

(e) that the decision was unreasonable for any other reason;

(f) any other reason.

**RHAN 2**

## Cosbau ariannol amrywiadwy: uchafsymiau

| *Toriad yn y Rheoliadau* | *Yr uchafswm y caniateir ei osod fel cosb ariannol amrywiadwy* |
|---|---|
| Methiant i gydymffurfio â'r gofyniad i godi tâl yn unol â rheoliad 6 (rheoliad 11(1) a (2)) | £5,000 |
| Methiant i gadw cofnodion yn unol â rheoliad 8 (rheoliad 11(1) a (2)) | £5,000 |
| Methiant i ddal gafael ar gofnodion yn unol â rheoliad 8 (rheoliad 11(1) a (2)) | £5,000 |
| Methiant i gyflenwi cofnodion yn unol â rheoliad 9 (rheoliad 11(1) a (2)) | £5,000 |
| Methiant i gyhoeddi cofnodion yn unol â rheoliad 10 (rheoliad 11(1) a (2)) | £5,000 |
| Heb achos rhesymol, yn rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i weinyddwr (rheoliad 11(3)) | £20,000 |
| Heb achos rhesymol, yn rhwystro gweinyddwr rhag cynnal ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu'n methu â rhoi cymorth iddo fel arall wrth iddo gynnal y swyddogaethau hynny (rheoliad 11(3)) | £20,000 |

## ATODLEN 4

Rheoliad 15

### Gofynion yn ôl disgresiwn nad ydynt yn rhai ariannol: gorfodi

**1**.—(1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "camau penodedig" ("*specified steps*") yw'r camau a bennir mewn hysbysiad terfynol o dan baragraff 6(c)(i) o Atodlen 3;

**PART 2**

## Variable monetary penalties: maximum amounts

| *Breach* | *Maximum amount which may be imposed as a variable monetary penalty* |
|---|---|
| Failure to comply with the requirement to charge in accordance with regulation 6 (regulation 11(1) and (2)) | £5,000 |
| Failure to keep records in accordance with regulation 8 (regulation 11(1) and (2)) | £5,000 |
| Failure to retain records in accordance with regulation 8 (regulation 11(1) and (2)) | £5,000 |
| Failure to supply records in accordance with regulation 9 (regulation 11(1) and (2)) | £5,000 |
| Failure to publish records in accordance with regulation 10 (regulation 11(1) and (2)) | £5,000 |
| Without reasonable cause, giving false or misleading information to an administrator (regulation 11(3)) | £20,000 |
| Without reasonable cause, otherwise obstructing or failing to assist an administrator in the conduct of its functions under these Regulations (regulation 11(3)) | £20,000 |

## SCHEDULE 4

Regulation 15

### Non-monetary Discretionary requirements: enforcement

**1**.—(1) In this Schedule—

"specified steps" ("*camau penodedig*") means the steps specified in a final notice under paragraph 6(c)(i) of Schedule 3;

ystyr "cyfnod penodedig" ("*specified period*") yw'r cyfnod a bennir mewn hysbysiad terfynol o dan baragraff 6(c)(ii) o Atodlen 3.

(2) Mae cyfeiriad yn yr Atodlen hon at fethiant llwyr yn gyfeiriad at werthwr na chymerodd ddim un o'r camau penodedig o fewn y cyfnod penodedig.

(3) Mae cyfeiriad yn yr Atodlen hon at fethiant rhannol yn gyfeiriad at werthwr a gymerodd o leiaf un o'r camau penodedig, ond nid y cyfan ohonynt, o fewn y cyfnod penodedig.

**Y pŵer i osod cosbau am beidio â chydymffurfio**

**2**.—(1) Os yw gwerthwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol, caiff gweinyddwr drwy hysbysiad osod cosb am beidio â chydymffurfio ar y gwerthwr.

(2) Caniateir gosod cosb am beidio â chydymffurfio mewn perthynas â methiant llwyr neu rannol i gydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol.

(3) Caniateir gosod cosb am beidio â chydymffurfio p'un a osodwyd cosb ariannol amrywiadwy ai peidio yn ychwanegol at y gofyniad heb fod yn ôl disgresiwn y mae cosb am beidio â chydymffurfio yn berthnasol iddo.

(4) Mae swm y gosb am beidio â chydymffurfio i'w ddyfarnu gan y gweinyddwr.

(5) Ond uchafswm y gosb y caniateir ei gosod gan weinyddwr fel cosb am beidio â chydymffurfio yw'r swm a bennir yn is-baragraff (6) drwy gyfeirio at y math o fethiant o dan sylw.

(6) Uchafswm y cosbau yw—

(a) £5,000 mewn perthynas â methiant rhannol;

(b) £5,000 mewn perthynas â methiant llwyr.

**Hysbysiad o Fwriad**

**3**.—(1) Pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb am beidio â chydymffurfio ar werthwr, rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno i'r gwerthwr hwnnw hysbysiad o'r hyn y bwriedir ei wneud ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y math o fethiant y mae'r gweinyddwr yn bwriadu gosod y gosb am beidio â chydymffurfio mewn perthynas â hi;

(b) y camau penodedig sydd eto i'w cymryd gan y gwerthwr o dan sylw;

(c) swm y gosb a fwriedir;

(ch) sut y gellir talu;

(d) erbyn pa ddyddiad y byddai'r taliad yn ddyledus;

"specified period" ("*cyfnod penodedig*") means the period specified in a final notice under paragraph 6(c)(ii) of Schedule 3.

(2) A reference in this Schedule to a complete failure is a reference to a seller having taken none of the specified steps within the specified period.

(3) A reference in this Schedule to a partial failure is a reference to a seller having taken at least one, but not all, of the specified steps within the specified period.

**Power to impose non-compliance penalties**

**2**.—(1) If a seller fails to comply with a non-monetary discretionary requirement an administrator may by notice impose a non-compliance penalty on the seller.

(2) A non-compliance penalty may be imposed in respect of a complete or partial failure to comply with a non-monetary discretionary requirement.

(3) A non-compliance penalty may be imposed irrespective of whether a variable monetary penalty was imposed in addition to the non-discretionary requirement to which the non-compliance penalty relates.

(4) The amount of a non-compliance penalty is to be determined by the administrator.

(5) But the maximum penalty which may be imposed by an administrator as a non-compliance penalty is the amount specified in sub-paragraph (6) by reference to the kind of failure concerned.

(6) The maximum penalties are—

(a) £5,000 in relation to a partial failure;

(b) £5,000 in relation to a complete failure.

**Notice of intent**

**3**.—(1) Where an administrator proposes to impose a non-compliance penalty on a seller, the administrator must serve on that seller a notice of what is proposed (a "notice of intent").

(2) A notice of intent must include information as to—

(a) the kind of failure in relation to which the administrator proposes to impose the non-compliance penalty;

(b) the specified steps which remain to be taken by the seller concerned;

(c) the amount of the penalty proposed;

(d) how payment may be made;

(e) the date by which payment would be due;

(dd) y canlyniadau am fethu â thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus;

(e) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a roddir gan baragraff 4;

(f) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y ceir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynddo;

(ff) o dan ba amgylchiadau (os oes rhai) y byddai'r gweinyddwr yn dueddol o leihau swm y gosb a fwriedir.

**Gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau**

**4**. O fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y gwerthwr yr hysbysiad o fwriad, caiff y gwerthwr wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r bwriad i osod cosb am beidio â chydymffurfio.

**Penderfynu ai gosod cosb am beidio â chydymffurfio ai peidio**

**5**.—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 4, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai gosod y gosb am beidio â chydymffurfio gydag addasiadau neu hebddynt ai peidio.

(2) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb am beidio â chydymffurfio os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(3) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i'r gweinyddwr ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â pharagraff 4.

(4) Pan fo gweinyddwr yn penderfynu gosod cosb am beidio â chydymffurfio rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio") i'r gwerthwr.

(5) Rhaid i hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio gydymffurfio â pharagraff 6.

**Cynnwys hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio**

**6**.—(1) Rhaid i hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau am osod y gosb o beidio â chydymffurfio;

(b) ymateb y gweinyddwr i unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr, gan gynnwys yr effaith (os oes un) ar swm y gosb sy'n cael ei osod;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gellir talu;

(d) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu;

(f) the consequences of failure to make payment by the date it is due;

(g) the right to make representations and objections conferred by paragraph 4;

(h) the 28 day period within which representations and objections may be made;

(i) the circumstances (if any) in which the administrator may be inclined to reduce the amount of the penalty proposed.

**Making representations and objections**

**4**. Within 28 days beginning with the date on which the notice of intent is received by the seller, the seller may make written representations and objections to the administrator in relation to the proposed imposition of a non-compliance penalty.

**Decision whether to impose a non-compliance penalty**

**5**.—(1) After the end of the 28 day period for making representations and objections under paragraph 4, the administrator must decide whether to impose the non-compliance penalty with or without modifications.

(2) Without restricting the power under sub-paragraph (1), an administrator may decide not to impose a non-compliance penalty if the administrator considers that in all the circumstances of the case it would be inexpedient to do so.

(3) In making a decision under this paragraph an administrator must take into consideration any representations or objections made by the seller in accordance with paragraph 4.

(4) Where an administrator decides to impose a non-compliance penalty it must do so by serving a notice ("a non-compliance penalty notice") on the seller.

(5) A non-compliance penalty notice must comply with paragraph 6.

**Contents of a non-compliance penalty notice**

**6**.—(1) A non-compliance penalty notice must include information as to—

(a) the grounds for imposing the non-compliance penalty;

(b) the administrator's response to any representations and objections made by the seller, including the effect (if any) on the amount of the penalty imposed;

(c) the amount of the penalty;

(d) how payment may be made;

(e) the date by which payment must be made;

(dd) yr hawl i apelio; a

(e) y canlyniadau am fethu â thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

(2) Rhaid i gosb am beidio â chydymffurfio gael ei thalu gan werthwr o fewn 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafwyd yr hysbysiad sy'n ei gosod.

(3) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraff (4) a rheoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir dyfarniad i apêl).

(4) Os cydymffurfir â gofynion y gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol cyn bod y 56 o ddiwrnodau wedi dod i ben, nid yw'r gosb am beidio â chydymffurfio yn daladwy.

(5) Caiff gwerthwr y cyflwynwyd iddo hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio apelio yn ei erbyn.

(6) Y seiliau ar gyfer apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod swm y gosb yn afresymol;

(ch) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm arall;

(d) unrhyw reswm arall.

**Talu cosbau am beidio â chydymffurfio yn dilyn apêl**

**7**. Os bydd hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio yn destun apêl, yna i'r graddau y caiff yr hysbysiad ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r gosb o fewn 28 gan ddechrau ar y diwrnod y caiff yr apêl ei dyfarnu.

**Cosbau am beidio â chydymffurfio: cosb am dalu'n hwyr**

**8**. Os na thelir cosb am beidio â chydymffurfio o fewn y cyfnod a ganiateir gan baragraff 6(2) neu (yn ôl y digwydd) gan baragraff 7, cynyddir y swm sy'n daladwy gan 50%.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(f) the right of appeal; and

(g) the consequences of failure to make payment by the date it is due.

(2) A non-compliance penalty must be paid by a seller within 56 days beginning with the date on which the notice imposing it was received.

(3) But this is subject to sub-paragraph (4) and regulation 21(4) (suspension of requirements and notices pending determination of an appeal).

(4) If the requirements of the non-monetary discretionary requirement are complied with before the 56 days expire, the non-compliance penalty is not payable.

(5) A seller on whom a non-compliance penalty notice is served may appeal against it.

(6) The grounds of appeal are—

(a) that the decision to serve the notice was based on an error of fact;

(b) that the decision was wrong in law;

(c) that the amount of the penalty was unreasonable;

(d) that the decision was unfair or unreasonable for any other reason;

(e) any other reason.

**Payment of non-compliance penalties following appeal**

**7**. If a non-compliance penalty notice is the subject of an appeal, then to the extent that the notice is upheld, the penalty must be paid by the seller within 28 days beginning with the day on which the appeal is determined.

**Non-compliance penalties: late payment penalty**

**8**. If a non-compliance penalty is not paid within the period allowed by paragraph 6(2) or (as the case may be) by paragraph 7, the amount payable is increased by 50%.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2010 Rhif 2880 (Cy.238)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU**

Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2010 No. 2880 (W.238)**

**ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES**

The Single Use Carrier Bags Charge (Wales) Regulations 2010

£9.75

W779/12/10 ON